



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru

SFWIN 04/2019

Gorffennaf 2019

Dileu Atebolrwydd dros Fenthyciadau i Fyfirwyr at Gostau Byw
2019

Cylchrediad

Sefydliadau addysg uwch
Sefydliadau addysg bellach
Darparwyr eraill sy'n darparu cyrsiau addysg uwch dynodedig
Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr
UCAS
Y Brifysgol Agored yng Nghymru
Undeb Cenedlaethol Myfyrrwyr Cymru
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Prifysgolion Cymru
Colegau Cymru
a phartïon eraill â buddiant

Cyflwyniad

Yn yr Hysbysiad hwn ceir gwybodaeth am bolisi Llywodraeth Cymru ar 'Ddileu Atebolrwydd dros Fenthyciadau i Fyfyrrwyr at Gostau Byw' a sut y'i rhoddir ar waith. Bwriad yr Hysbysiad yw cynnig arweiniad ar bolisi Llywodraeth Cymru. Mae Rheoliadau¹ yn llywodraethu'r modd y mae'r polisi'n gweithio. Os ceir gwrthdaro rhwng yr arweiniad hwn a'r rheoliadau, y rheoliadau fydd drechaf.

Dileu Atebolrwydd dros Fenthyciadau i Fyfyrrwyr at Gostau Byw

Beth yw'r polisi?

Ers blwyddyn academiaidd 2010/11 mae Llywodraeth Cymru wedi dileu hyd at £1,500 oddi ar falans benthyciadau cynhaliaeth myfyrrwyr ar ôl iddynt wneud eu had-daliad cyntaf ar gyfer y benthyciad. Bydd y polisi hwn yn parhau ar gyfer 2019/20.

I bwy y mae'r polisi'n berthnasol?

Mae'r polisi'n berthnasol i fyfyrrwyr sy'n cael benthyciadau cynhaliaeth gan Cyllid Myfyrrwyr Cymru i'w cynorthwyo i astudio cwrs gradd llawn amser. Nid yw'r rhai sy'n cael benthyciadau ar gyfer astudiaethau gradd rhan-amser neu astudiaethau ôl-raddedig yn gymwys.

¹ Rheoliadau Dileu Atebolrwydd dros Fenthyciadau i Fyfyrrwyr at Gostau Byw (Cymru) 2019
<http://www.legislation.gov.uk/wsi/2019/1073/contents/made>

Os cafodd myfyrrwyr fenthyciad cynhaliaeth gan Cyllid Myfyrrwyr Cymru ym mlwyddyn academaidd 2010/11, neu mewn unrhyw flwyddyn academaidd ar ôl hynny, fe allent gael dileu hyd at £1,500 oddi ar falans eu benthyciad gan Lywodraeth Cymru.

Bydd y swm yn cael ei ddileu gan Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr oddi ar brif fenthyciad y myfyriwr pan fydd y myfyriwr yn gwneud ei ad-daliad cyntaf. Gall hyn ddigwydd pan fydd y myfyriwr yn gwneud ad-daliad gorfodol pan fydd ei enillion yn mynd y tu hwnt i drothwy arbennig, neu pan fydd y myfyriwr yn dewis gwneud ad-daliad gwirfoddol (yn cynnwys ad-daliadau gwirfoddol a wneir tra'n dal i astudio).

Ni fydd myfyrrwyr yn gymwys i gael dilead os oes ganddynt unrhyw ffioedd, costau, treuliau neu gosbau dyledus yn ymwneud â'u benthyciad neu os ydynt wedi torri cytundeb eu benthyciad.

Os bydd myfyrrwyr yn cymryd benthyciad cynhaliaeth mewn mwy nag un flwyddyn academaidd, fel y gwna llawer o fyfyrrwyr, bydd y swm a gaiff ei ddileu'n berthnasol i'r benthyciad cynhaliaeth cyntaf a gymerwyd ganddynt. Felly, os oes gan fyfyriwr fenthyciad ym mlwyddyn academaidd 2018/19 a hefyd ym mlwyddyn academaidd 2019/20, bydd y swm a gaiff ei ddileu'n berthnasol i fenthyciad 2018/19.

Faint a gaiff ei ddileu?

Rhoddir y broses ddileu ar waith y tro cyntaf y caiff ad-daliad ei wneud. Caiff y swm ei ddileu oddi ar y balans sy'n ddyledus *ar ôl* i'r taliad cyntaf gael ei gredu i gyfrif y myfyriwr:

- os yw'r balans yn sero (h.y. mae'r myfyriwr wedi ad-dalu'r balans sy'n ddyledus yn llawn mewn un taliad), bydd y swm a gaiff ei ddileu'n sero ac ni fydd y myfyriwr yn gymwys i gael dilead pellach;
- os yw'r balans yn llai na £1,500, bydd y myfyriwr yn cael dileu swm y balans sy'n ddyledus ac ni fydd y myfyriwr yn gymwys i gael dilead pellach; ac
- os yw'r balans yn £1,500 neu'n fwy, yna bydd y myfyriwr yn cael dileu £1,500 ac ni fydd y myfyriwr yn gymwys i gael dilead pellach.

Os yw'r swm a gaiff ei ddileu'n llai na £1,500, yn cynnwys pan fydd yn £0, ni fydd unrhyw ddilead pellach yn cael ei roi ar waith ar gyfer unrhyw ddyled benthyciad yn y dyfodol.

Ceir enghreifftiau yn Atodiad A.

Pryd fydd dilead yn cael ei ddiwyddu o falans myfyrrwyr?

Ar ôl iddynt wneud eu had-daliad cyntaf, os bydd myfyrrwyr yn gymwys i gael dilead, bydd Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr yn cyfrifo'r swm a gaiff ei ddileu oddi ar eu balans. Bydd y swm yn cael ei ddileu'n fuan ar ôl i'r ad-daliad gael ei wneud a bydd yn cael ei ddangos ar eu cyfriflen nesaf fel arfer.

A fydd myfyrrwyr yn dal i fod yn gymwys i gael dilead, hyd yn oed os na fyddant yn gwneud ad-daliad am sawl blwyddyn ar ôl iddynt gwblhau eu cwrs?

Cyn belled â bod y myfyrrwyr wedi cymryd benthyciad cynhaliaeth yn ystod, neu ar ôl, blwyddyn academaidd 2010/11, a'u bod yn gymwys i gael dilead, bydd y dilead yn cael ei roi ar waith ar ôl iddynt wneud eu had-daliad cyntaf. Os bydd eu hincwm yn aros dan y trothwy ad-dalu am sawl blwyddyn, byddant yn dal i fod yn gymwys i gael dilead pan fyddant yn gwneud ad-daliad yn y dyfodol.

A all myfyrrwyr gael dilead fwy nag unwaith?

Na. Unwaith yn unig y caniateir dilead i fyfyrrwyr, hyd yn oed pan fo swm y dilead yn £0 gan eu bod wedi talu'r balans a oedd yn ddyledus ar y benthyciad yn llawn.

Gwybodaeth a chanllawiau pellach

Ceir gwybodaeth a chanllawiau pellach ar wefan Cyllid Myfyrrwyr Cymru.

Atodiad A – Enghreifftiau o ddileu

Gwneud ad-daliad ar ôl i fyfyriwr gwblhau ei gwrs

Os yw myfyriwr wedi cwblhau ei gwrs, bydd y swm a gaiff ei ddileu'n dibynnu ar y canlynol:

- faint a gaiff ei ad-dalu;
- y balans ar ôl i'r ad-daliad cyntaf gael ei wneud.

Enghraifft 1

| Balans y benthyciad cynhaliaeth | Swm yr ad-daliad cyntaf | Y balans sy'n ddyledus | Y swm a gaiff ei ddileu* |
|---------------------------------|-------------------------|------------------------|--------------------------|
| £200 | £200 | £0 | £0 |
| £1,000 | £5 | £995 | £995 |
| £3,000 | £1,000 | £2,000 | £1,500 |

* Ni chaniateir unrhyw ddileu pellach.

Gwneud ad-daliad tra'n astudio

Os yw myfyriwr yn cael taliadau benthyciad cynhaliaeth ar hyn o bryd ac os bydd yn ad-dalu rhywfaint o'i fenthyciad, yna bydd y swm a gaiff ei ddileu'n dibynnu ar y canlynol:

- pryd y caiff yr ad-daliad ei wneud;
- y balans adeg yr ad-daliad.

Enghraifft 2

Gwneir ad-daliad o £50 yn ystod ail dymor astudio'r myfyriwr.

| | |
|---------------------------------------|-------|
| | £ |
| Taliad benthyciad cynhaliaeth tymor 1 | 600 |
| Taliad benthyciad cynhaliaeth tymor 2 | 600 |
| Ad-daliad gwirfoddol | 50 |
| Y balans sy'n ddyledus | 1,150 |

| | |
|---------------------------------------|-------|
| Y swm a gaiff ei ddileu* | 1,150 |
| Taliad benthyciad cynhaliaeth tymor 3 | 600 |
| Balans y benthyciad cynhaliaeth | 600 |

* Ni chaniateir unrhyw ddileu pellach.

Enghraifft 3

Gwneir ad-daliad o £50 yn ystod trydydd tymor astudio'r myfyriwr.

| | |
|---------------------------------------|-------|
| | £ |
| Taliad benthyciad cynhaliaeth tymor 1 | 600 |
| Taliad benthyciad cynhaliaeth tymor 2 | 600 |
| Taliad benthyciad cynhaliaeth tymor 3 | 600 |
| Ad-daliad gwirfoddol | 50 |
| Y balans sy'n ddyledus | 1,750 |
| Y swm a gaiff ei ddileu* | 1,500 |
| Balans y benthyciad cynhaliaeth | 250 |

* Ni chaniateir unrhyw ddileu pellach.

Enghraifft 4

Mae'r myfyriwr yn ad-dalu'r cyfanswm sy'n ddyledus ar ôl cael taliad benthyciad tymor 2.

| | |
|---------------------------------------|-------|
| | £ |
| Taliad benthyciad cynhaliaeth tymor 1 | 600 |
| Taliad benthyciad cynhaliaeth tymor 2 | 600 |
| Ad-daliad gwirfoddol | 1,200 |
| Y balans sy'n ddyledus | 0 |
| Y swm a gaiff ei ddileu* | 0 |
| Taliad benthyciad cynhaliaeth tymor 3 | 600 |
| Balans y benthyciad cynhaliaeth | 600 |

* Ni chaniateir unrhyw ddileu pellach.